Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig:
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Glastir

## Telerau ac Amodau ar Gyfer Cofrestru Cynllunwyr Rheoli Coetir Glastir

## Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020



**Cyflwyniad**

a) Mae'r ddogfen hon yn nodi'r telerau a'r amodau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gosod ar gyfer cofrestru fel Cynllunydd Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir.

b) Oni ddywedir yn benodol fel arall, mae'n rhaid i Ymgeisydd ar gyfer cynlluniau Coetir Glastir ddefnyddio un o Gynllunwyr Cofrestredig Coetir Glastir i gynllunio, paratoi a chyflwyno'r Cynllun Rheoli Coedwig neu Gynllun Creu Coetir Glastir y mae'n rhaid wrtho er mwyn derbyn nawdd o dan gynlluniau Coetir Glastir. Mae'r Cynllunydd Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir yn chwarae rhan allweddol pan roddir ar waith gynlluniau Ccoetir Glastir mewn partneriaeth â'r tirfeddiannwr ac/neu tenant, ei asiant awdurdodedig a Llywodraeth Cymru.

c) Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru allu bod yn siŵr y parheir i gynnal yr un safonau uchel iawn ag a gyflawnwyd eisoes gan y sector preifat mewn rhaglenni blaenorol. Mae'r ddogfen hon yn ceisio sicrhau bod y safonau proffesiynol uchel iawn hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y gofynion cofrestru, ac y byddir yn delio â pherfformiad anfoddhaol yn y fath fodd fel y diogelir y safonau hyn.

d) Gellir adolygu'r telerau a'r amodau hyn o bryd i'w gilydd yng ngoleuni profiad. Mae Llywodraeth Cymru yn cadarnhau ei pholisi o ymgynghori'n barhaus, gan edrych ymlaen hefyd at barhau'r arfer o gynnal cyfarfodydd ffurfiol yn rheolaidd â chynrychiolwyr y diwydiant. Yn y cyfarfodydd hynny bydd modd codi a thrafod materion sydd o ddiddordeb a/neu sy'n peri pryder i'r ddwy ochr, gan gynnwys sut y rhoddir y telerau a'r amodau hyn ar waith.

**1. Diffiniadau**

Gweler Atodiad I am restr lawn o ddiffiniadau perthnasol i'r ddogfen hon.

**2. Cofrestr Cynllunwyr Rheoli Coetir Glastir**

1. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal Cofrestr o Gynllunwyr Rheoli Coetir Glastir ("y Gofrestr") sef y rhai sy'n gymwys i baratoi a chyflwyno Cynlluniau Rheoli o dan gynlluniau Ccoetir Glastir ar ran Ymgeiswyr. Ni fydd neb heblaw Cynllunwyr Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir yn gymwys i baratoi a chyflwyno ceisiadau ar ran Ymgeiswyr am gynlluniau Coetir Glastir, oni nodir yn benodol fel arall yn nogfen y cynllun dan sylw.

2. Mae'n rhaid i gais am gynnwys unigolyn ar y Gofrestr gael ei wneud ar y ffurflen sydd i'w gweld yn Atodiad II. Ni chaiff cwmni wneud cais i gael ei gynnwys ar y Gofrestr ond fe all wneud cais am gynnwys gweithwyr unigol ar y Gofrestr, yn amodol ar baragraffau 6 a 7 o'r adran yma.

3. Ni all neb wneud cais am gael bod yn Gynllunydd Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir onid yw yn Aelod Cyswllt neu Lawn Broffesiynol o Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig (ICF) neu gorff proffesiynol cyffelyb, megis Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) neu'r Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheoli'r Amgylchedd (CIEEM), neu mae'n rhaid meddu ar gymhwyster mewn coedwigaeth sydd yn dderbyniol i Weinidogion Cymru. Os bydd gan unigolyn aelodaeth gyswllt neu statws cyfatebol nad yw yn gyfystyr â statws siartredig llawn, gall barhau ar restr Cynllunwyr Cofrestredig Coetir Glastir gyda'r statws hwnnw am hyd at 3 blynedd; wedi hynny mae'n rhaid iddo gael aelodaeth broffesiynol lawn neu efallai y caiff ei dynnu oddi ar y rhestr. Cyn i'r drydedd flwyddyn gael ei chyrraedd ble mae aelod cyswllt wedi ymrestru ar fwrdd diweddaraf nesaf i gael ei asesu ar gyfer statws siartredig proffesiynol gan y corff proffesiynol, yn unol â dewis Llywodraeth Cymru gaiff gyfnod gras o'r drydedd flwyddyn sy'n mynd heibio, a boed chanlyniad y bwrdd ar gael, yn cael ei ganiatáu.

4. Mae'n rhaid i Gynllunwyr Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir feddu ar dystysgrif Yswiriant Indemniad Proffesiynol ddilys gyda gwerth yswiriedig o ddim llai na £500,000. Mae'n rhaid bod â Pholisi Yswiriant Indemniad Proffesiynol cyfredol cyfwerth â'r swm uchod tra pery'r Cofrestriad. Fodd bynnag, ni chaiff Cynllunydd Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir ei ryddhau o fod yn gyfrifol am sicrhau bod ganddo yswiriant digonol i indemnio'r gwaith a wneir.

5. Bydd cofrestriad fel Cynllunydd Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir yn ddilys o'r dyddiad pan roddir cadarnhad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru tan gynghorir yn bellach30 Mehefin 2016.

6. Lle bo rhywun a gyflogir gan gwmni yn Gynllunydd Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir, bydd y cwmni'n gyfrifol am rwymedigaethau y sawl y mae'n ei gyflogi ac am sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Thelerau ac Amodau'r ddogfen hon.

7. Lle bo rhywun sy'n Gynllunydd Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir yn trosglwyddo o gyflogaeth un cwmni at gwmni arall, mae'n rhaid i'r cwmni y trosglwyddodd y Cynllunydd Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir ato wneud cais o'r newydd.

## 3. Safonau a Pholisiau

1. Disgwylir i bob Cynllunydd Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir ddarparu gwasanaeth a Chynllun Rheoli ar gyfer Ymgeisydd gan ddangos arbenigedd, gofal a diwydrwydd a chydymffurfio â'r Safonau a pholisiau Coedwigaeth a ganlyn:

    a) Cod Moeseg, Gwerthoedd Proffesiynol a Rheolau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol - Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig
    b) Rheolau Ymddygiad ar gyfer Aelodau a Chwmniau – Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig

c) Cod Ymddygiad Proffesiynol (‘y cod’) - Sefydliad Siartredig o Reolaeth Ecoleg a’r Amgylcheddd)
d) Safon Coedwigaeth y DU (UKFS)
e) Coetiroedd i Gymru – Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Coetiroedd a Choed
f) Holl ddogfennaeth Adfer Coetir Glastir, Creu Coetir Glastir a Rheoli Coetir Glastir (neu’r ‘canllawiau’)

2. Pan baratoir Cynllun Rheoli i’w gymeradwyo, mae’n rhaid i’r Cynllunydd Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir fod yn fodlon, lle bo hynny’n berthnasol, fod unrhyw waith a wneir yn bodloni, neu’n parhau i fodloni, gofynion y cynllun dan sylw a gofynion Safon Coedwigaeth y DUUKFS, a bod yr holl ddogfennaeth wedi cael ei pharatoi gyda gofal a diwydrwydd priodol a chan ystyried yn ddigonol ofynion y cynllun.

3. Os bydd y Cynllunydd Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir yn methu â chydymffurfio â Safonau perthnasol Coedwigaeth y UKFS heb eglurhad ddilys fel sydd yn ofynnol; os bydd yn darparu cyngor  anghywir; neu os yw’n rhoi rhy ychydig o wybodaeth i’r Cynllun Rheoli allu cael ei Gymeradwyo, ni fydd Llywodraeth Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb os gwrthodir y Cynllun Rheoli hwnnw. Ni fydd chwaith yn talu am unrhyw waith pellach sydd ei angen er mwyn sicrhau bod y Cynllun Rheoli’n cael ei dderbyn.

4. Os gwrthodir taliad grant i Ymgeisydd o dan un o gynlluniau Ccoetir Glastir oherwydd bod un o Gynllunwyr Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir wedi methu â chydymffurfio â Safon Coedwigaeth y DUUKFS neu ei fod wedi rhoi cyngor sy’n groes i Safon Coedwigaeth y DUUKFS, mae’n rhaid i’r Cynllunydd Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir hwnnw unioni pethau mewn modd sy’n foddhaol i Lywodraeth Cymru. Os bydd y Cynllunydd Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir, ym marn Gweinidogion Cymru, trwy esgeulustod yn anwybyddu neu’n methu â chydymffurfio â Safon Coedwigaeth y DUUKFS, neu os bydd trwy esgeulustod wedi rhoi cyngor sy’n groes i Safon Coedwigaeth y DUUKFS, mae’r Cynllunydd Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir yn cytuno i indemnio Gweinidogion Cymru rhag unrhyw hawliad pellach gan yr Ymgeisydd hwnnw am daliadau grant neu bremiwm, colledion neu iawndal ym mha fodd bynnag y daw’r taliadau hynny i fod.

5. Bydd Llywodraeth Cymru a’r sefydliadau hynny, fel Cyfoeth Naturiol Cymru, Cadw a’rc Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru, sy’n bartneriaid i’r Llywodraeth ac sydd â rhan yn y gwaith o gyflawni cynlluniau Coetir Glastir, yn hwyluso a hyrwyddo, fel y bo’n briodol, Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer Cynllunwyr Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir, trwy gyfrwng diwrnodau maes a digwyddiadau hyfforddi penodol i fynd i’r afael ag unrhyw faterion technegol o bwys. Bydd pob cylchlythyr technegol perthnasol yn cael ei anfon at Gynllunwyr Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir. Bydd yn ofynnol i Gynllunwyr Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir fynychu diwrnodau hyfforddi gorfodol oni bai fod hysbysebiad o flaenllaw o eich argaeledd wedi ei dderbyn gan Llywodraeth Cymrufel y bo’n briodol.

**4. Rhoi Sancsiynau**

1. Bydd pob Cynllun Rheoli yn cael ei asesu yn erbyn Safon Coedwigaeth y DUUKFS a rheolau cynllun Ccoetir Glastir. Bydd yr asesiad yn cynnwys gwiriadau gweinyddol a gall gynnwys ymweliadau safle i sicrhau y cydymffurfir â Safon Coedwigaeth y DUUKFS a rheolau cynllun Ccoetir Glastir. Nid yw'r rhestr isod yn hollgynhwysfawr ond dyma rai enghreifftiau o weithgareddau a fyddai'n arwain at sancsiwn o dan yr adran hon:

    - darparu gwybodaeth neu ddatganiadau anwir, twyllodrus neu gamarweiniol, neu ddal yn ôl wybodaeth hanfodol, a all olygu y bydd Cymeradwyaeth yn cael ei rhoi, neu grant yn cael ei dalu, gan Weinidogion Cymru mewn modd amhriodol;

    - esgeuluso neu beidio ag ystyried Safon Coedwigaeth y DUUKFS a Choetiroedd i Gymru - strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Coetiroedd a Choed;

    - methu â chadw at neu ddilyn Telerau ac Amodau Cofrestru Cynllunwyr Rheoli Coetir Glastir a rheolau cynllun Coetir Glastir (gan gynnwys holl ddogfennaeth (holl ganllawiau?) Adfer Coetir Glastir, Creu Coetir Glastir a Rheoli Coetir Glastir) oherwydd esgeulustod neu ddiffyg ystyriaeth;

    - gweithred esgeulus sy'n groes i God Ymddygiad y corf proffesiynol priodol, Safon Coedwigaeth y DUUKFS, rheolau cynllun Coetir Glastir a'r Telerau ac yr Amodau yma.

    - Methiant i fynychu digwyddiadau hyfforddi, fel a orchmynir, a heb gytundeb blaenorol I beidio mynychu.

    - Methiant i gadw at datblygiad personol parhaol, fel a amlinellir yn termau aelodaeth eich corf proffesiynol.

    - Ymddygiad anghwrtais neu ymosodol tuag at staff Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru a aelodau o'r cyhoedd.

2. Ble mae Llywodraeth Cymru yn ystyried fod sancsiwn yn gwarantu, byddent yn rhoi rhybudd ysgrifenedig ffurfiol i'r Cynllunydd Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir os bydd y Cynllunydd Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir yn esgeuluso neu'n diystyru y Cod Ymddygiad priodoly , Safon Coedwigaeth y UKFS, rheolau cynllun Coetir Glastir a'r Telerau a'r Amodau hyn. Efallai y bydd rhybudd o'r fath yn golygu bod yn rhaid i'r Cynllunydd Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir gymryd camau penodol a rhesymol i roi sylw i bryderon neu wrthwynebiad Llywodraeth Cymru.

3. Os fydd sancsiynau pellach eu hangen, caiff enw'r Cynlluniwr Rheoli Coetir Glastir Cofrestredig ei dynnu allan o’r rhestr Cynllunwyr Rheoli Coetir Glastir Cofrestredig yn syth a fydd paragraffau 6, 7, 8, 9 a 10 yn gymhwysol.

4. Ble mae Llywodraeth Cymru yn ystyried fod Cynlluniwr Rheoli Coetir Glastir Cofrestredig wedi cario allan be welir fel torymrwymiad difrifol o’r telerau ac amodau yma, caiff ei ei dynnu allan o’r rhestr Cynllunwyr Rheoli Coetir Glastir Cofrestredig yn syth

5. Ble mae amheuaeth o dwyll, fe gaiff Panel Gwerthusiad Risg o Dwyll ei gynnull i ymchwilio i’r mater.

6. Bydd unrhyw benderfyniad i roi sancsiynau o dan yr adran hon yn cael ei wneud ar lefel uwch-swyddogion yn Llywodraeth Cymru.

7. Hysbysir y Cynllunydd Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir yn ysgrifenedig; rhoddir cyfle iddo ymateb; a rhoddir cyfle iddo gyfarfod â Llywodraeth Cymru i drafod y mater. Ar ôl ystyried unrhyw sylwadau a wneir gan y Cynllunydd Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir, bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu a yw am gadarnhau ynteu newid y sancsiwn. Ym mhob achos, fe wneir darpariaeth fel y gellir apelio’n ffurfiol heb ragfarnu’r hawl i iawndal.

8. Mewn amgylchiadau lle caiff y Cynllunydd Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir ei atal neu ei ddiarddel o’r Gofrestr, mae’n rhaid anfon at Lywodraeth Cymru bob Cynllun Rheoli yr oedd wrthi’n gweithio arno pan gafodd ei atal.

9. Gellir rhoi’r sancsiynau uchod ar ben unrhyw gosbau a roddir o dan gynlluniau Ccoetir unigol Glastir.

10. Effallai fe hysbysir yr Ymgeisydd/wyr am unrhyw sancsiynau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu rhoi i un o Gynllunwyr Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir.

## 5. Darpariaethau Cyffredinol

1. Disgwylir i Gynllunydd Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir gydymffurfio â phob gofyniad rhesymol mewn perthynas â chwblhau a dychwelyd ffurflenni a dogfennau yn briodol a rhaid iddo ddarparu, heb ormod o oedi, unrhyw wybodaeth berthnasol i’r cynllun coetir Glastir dan sylw y bydd Llywodraeth Cymru o dro i dro yn gofyn amdani, gan gynnwys cais am weld cofnodion a gedwir gan y Cynllunydd Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir neu ei gyflogwr.

2. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw anghydfod rhwng Ymgeisydd a Chynllunydd Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir nac yn ymyrryd mewn anghydfod o’r fath, gan mai materion preifat yw’r rhain i’w datrys rhwng y ddau barti.

3. Disgwylir i Gynllunwyr Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir gwblhau o leiaf tri Chynllun Rheoli Glastir bob blwyddyn er mwyn cadw eu cymhwysedd proffesiynol. Fodd bynnag, ni ellir gwarantu pa mor aml y gelwir arnynt i wneud gwaith na faint o waith y byddant yn ei gael. Os na fydd Cynllun Rheoli'n cael ei gwblhau o fewn yr amserlen sy'n ofynnol, efallai y bydd yn rhaid ei ohirio neu ei ailgyflwyno. Mae'n rhaid i'r Cynllunydd Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir wneud unrhyw gais am ohirio neu ailgyflwyno Cynllun Rheoli na chafodd ei gwblhau o fewn yr amserlen, yn ysgrifenedig i Weinidogion Cymru. Os methir â chydymffurfio ag unrhyw agwedd ar y paragraff hwn, efallai y rhoddir sancsiynau yn unol â'r hyn a nodir yn rhan 5 uchod.

4. Pan fydd yn llunio Cynllun Rheoli, mae'r Cynllunydd Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir yn gyfrifol am sicrhau'r holl Drwyddedau angenrheidiol, er enghraifft trwyddedau cwympo coed a thrwyddedau rhywogaethau a warchodir gan Ewrop; dogfennau cysylltiedig fel Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol; a chydsyniadau fel cydsyniad Heneb, cydsyniad Parciau a Gerddi Rhestredig, Rhybudd o Fwriad ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, cydsyniad Cwrs Dŵr Cyffredin, Gorchymyn Cynllunio ar gyfer Datblygu a ganiateir Cyffredinol a Chaniatâd Cynllunio os yw'r safle o fewn 25 metr i briffordd.

5. Disgwylir i'r Cynllunydd Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir weithredu yn unol â'r arferion gorau, gan gynnwys defnyddio'r holl gyfleusterau TG, y systemau gweinyddol newydd a'r systemau ar-lein y bydd Llywodraeth Cymru efallai yn gofyn iddo eu defnyddio.

6. Un o amodau cofrestru yw bod pob gweithgaredd lle derbynnir grant yn cael ei gynnal yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr, mewn perthynas â threthi a chyflogaeth ymhlith pethau eraill. Efallai y bydd yn ofynnol i Gynllunydd Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir wneud datganiad i ddweud ei fod yn cydymffurfio yn hyn o beth.

7. Mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i ddileu neu ddiwygio'r Telerau a'r Amodau hyn neu eu disodli gan roi rhai eraill yn eu lle. Efallai y bydd Safon Coedwigaeth y DUUKFS, a gymhwysir i gynlluniau Ccoetir Glastir, hefyd yn cael ei diwygio o bryd i'w gilydd. Fe hysbysir holl Gynllunwyr Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir yn ysgrifenedig cyn i ddim byd gael ei ddileu na'i newid na'i ddisodli ac fe roddir iddynt rybudd rhesymol o unrhyw newidiadau o'r fath.

8. Ni fydd yr hawliau a'r rhwymedïau a nodir yn y ddogfen hon yn rhagfarnu unrhyw hawliau neu rwymedïau sydd ar gael i'r gwahanol bartïon o dan y gyfraith gyffredin.

9. Gall y naill barti neu'r llall derfynu cofrestriad o dan y Telerau a'r Amodau hyn drwy roi rhybudd ysgrifenedig. Bydd Llywodraeth Cymru yn hysbysu'r Cynllunydd Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir yn ysgrifenedig os bydd ei gofrestriad yn cael ei derfynu heb ei ganiatâd.

10. Gall Llywodraeth Cymru derfynu cofrestriad o dan y Telerau a'r Amodau hyn yn ddiymdroi os bydd y Cynllunydd Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir neu ei gyflogwr yn methdalu neu os cychwynnir achos ansolfedd, derbynyddiad neu fethdaliad gan neu yn erbyn y

Cynllunydd Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir neu ei gyflogwr, neu os penodir gweinyddwr, neu os bydd y Cynllunydd Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir yn aseinio'r cytundeb hwn neu unrhyw hawliau o dan y cytundeb hwn heb gael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru.

## 6. Datgelu Data

Rhannu Data Personol

Bydd yr wybodaeth y byddwch yn ei darparu yn cael ei defnyddio er mwyn:

- cyhoeddi rhestr Cynllunwyr Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir (gan gynnwys enwau, cyfeiriadau, rhifau ffôn a chyfeiriadau e-bost);
- cadarnhau gyda Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig neu cyrff proffesiynol eraill adnabyddiedig fod y Cynllunydd Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir yn aelod cyswllt neu aelod o Sefydliad y Coedwigwyr Siartredigo Gorff Proffesiynol;
- galluogi Llywodraeth Cymru (neu ei hasiantau) i brosesu Cynlluniau Rheoli a gweinyddu cynlluniau coetir Glastir;
- caniatáu i bartner-sefydliadau gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol.

## Cyhoeddi a Datgelu Gwybodaeth

Rheolir a defnyddir yr wybodaeth gan Lywodraeth Cymru yn unol â'i rhwymedigaethau a'i dyletswyddau o dan y ddeddfwriaeth a ganlyn:

- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Deddf Diogelu Data 1998
- Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

Efallai y bydd aelod arall o'r cyhoedd yn gofyn am eich gwybodaeth, gan gynnwys eich gwybodaeth bersonol. Wrth ymateb i geisiadau o'r fath, efallai y bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru ddatgelu gwybodaeth, gan gynnwys eich gwybodaeth bersonol.

## Diffiniadau

Mae **'Ymgeisydd'** yn golygu'r unigolyn neu'r endid a enwir yn y modd hwn wrth Fynegi Diddordeb ar gyfer ymgeisio am fynegiant o ddiddordeb neu gynllun Coetir Glastir.

Mae **'Cymeradwyo'** yn golygu cymeradwyo a gwirio Cynllun Rheoli ar ôl i Lywodraeth Cymru neu Gyfoeth Naturiol Cymru gynnal gwiriadau dilysu.

Mae **'Rheolau'r Undeb Ewropeaidd'** yn golygu'r gyfraith berthnasol (gan gynnwys deddfwriaeth) o eiddo'r Undeb Ewropeaidd ac unrhyw gyfraith sydd wedi'i deddfu gan y Deyrnas Unedig neu Weinidogion Cymru y dywedir ei bod at ddiben gweithredu cyfraith yr Undeb Ewropeaidd, neu sydd yn gweithredu'r gyfraith honno, sydd ar y pryd mewn grym, gan gynnwys unrhyw gyfraith neu ddeddfwriaeth o'r fath o eiddo'r Undeb Ewropeaidd a fabwysiadir neu a ddaw i rym mewn perthynas â Chymru wedi i'r Telerau a'r Amodau hyn gael eu gwneud.

Mae **'Cynllunydd Rheoli Coetir Glastir'** yn golygu unigolyn sy'n darparu gwasanaethau coedwigaeth ac sydd wedi cael ei dderbyn ar Gofrestr Cynllunwyr Rheoli Coetir Glastir gan gytuno drwy hynny i gadw at y telerau a'r amodau sydd i'w gweld yn y ddogfen hon.

Mae **'Safonau Coedwigaeth'** yn golygu'r holl safonau a restrir yn rhan 3.1.

Mae **'Cynlluniau Coetir Glastir'** yn golygu holl gynlluniau Cynllun Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru gan gynnwys Rheoli Coetir Glastir, Creu Coetir Glastir ac Adfer Coetir Glastir.

Mae **'Dogfennau Coetir Glastir'** yn golygu'r holl ddogfennaeth sy'n berthnasol i gynlluniau Coetir Glastir.

Mae **'Cynllun Rheoli'** yn golygu'r Cynllun Rheoli Coedwig neu Gynllun Creu Coetir Glastir sy'n berthnasol i gynlluniau coetir Glastir.

Mae i **'Gweinidogion Cymru'** yr un ystyr ag yn adran 45(2) Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae **'Cynllunydd Cofrestredig Rheoli Coetir Glastir'** yn golygu unigolyn sydd wedi'i restru ar Gofrestr Llywodraeth Cymru o Gynllunwyr Coetir Glastir.

Mae **'Safon Coedwigaeth y DU (UKFS)'** yn golygu'r safon gyfeiriol ar gyfer rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy yn y Deyrnas Unedig.

Mae i **'Llywodraeth Cymru'** yr un ystyr ag yn adran 4 Deddf Cymru 2014.

Mae **'Coetiroedd i Gymru – y strategaeth ar gyfer coetiroedd a choed'** yn golygu strategaeth Llywodraeth Cymru sydd yn gosod cyfeiriad ar gyfer coedwigaeth yng Nghymru.

Mae **'Uwch-swyddog Llywodraeth Cymru'** yn golygu un o Swyddogion Llywodraeth Cymru sydd ar O Radd MB1 neu uwch.

**Atodiad II**

## Cais am gael bod ar Gofrestr Cynllunwyr Rheoli Coetir Glastir Llywodraeth Cymru

Enw: ______________________________________________________________

Cyfeiriad:

______________________________________________________________

______________________________________________________________

______________________________________________________________

Ffôn: ______________________________ Ffacs: ____________________________

Ffôn Symudol: _______________________ E-bost: ___________________________

Enw Cwmni'r Cyflogwr (os yw'n berthnasol):

______________________________________________________________

Cyfeiriad:

______________________________________________________________

______________________________________________________________

______________________________________________________________

Ffôn: ______________________________ Ffacs: ____________________________

1. Rwyf yn fodlon gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg a darparu Cynlluniau Rheoli yn Gymraeg: ☐

| **Rhowch groes i ddangos ym mha rannau o Gymru yr ydych yn fodlon rhoi cyngor:** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sir** | | **Sir** | | **Sir** | | **Sir** | |
| Blaenau Gwent | ☐ | Conwy | ☐ | Sir Fynwy | ☐ | Abertawe | ☐ |
| Pen-y-bont ar Ogwr | ☐ | Sir Ddinbych | ☐ | Castell-nedd | ☐ | Torfaen | ☐ |
| Caerffili | ☐ | Sir y Fflint | ☐ | Casnewydd | ☐ | Bro Morgannwg | ☐ |
| Caerdydd | ☐ | Gwynedd | ☐ | Sir Benfro | ☐ | Wrecsam | ☐ |
| Caerfyrddin | ☐ | Ynys Môn | ☐ | Powys | ☐ | | |
| Ceredigion | ☐ | Merthyr Tudful | ☐ | Rhondda Cynon Taf | ☐ | | |

2. Rwyf yn datgan fy mod:

a. Yn aelod cyswllt o Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig: ☐

Ers faint rydych yn aelod cyswllt?

________________________________________

b. Aelod llawn o Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig: ☐

c. Aelod cyswllt o gorff proffesiynol arall: ☐

Pa gorff proffesiynol?

________________________________________

Ers faint rydych yn aelod cyswllt?

________________________________________

d. Aelod llawn o gorff proffesiynol arall: ☐

Rhif Aelodaeth Lawn/ Rhif Aelodaeth Gyswllt:

________________________________________

Amgaeaf brawf fy mod yn Aelod Cyswllt neu'n Aelod Llawn o Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig neu Gorff Proffesiynol cyffelyb, neu fod gennyf gymhwyster mewn coedwigaeth e.e. tystysgrifau cymhwyso.

3. Rwyf yn deall y bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio cadarnhad gan y Sefydliad neu Gorff Proffesiynol neu gennyf fi ynghylch fy aelodaeth neu aelodaeth gyswllt.

4. Amgaeir yma Dystysgrif Yswiriant Indemniad Proffesiynol sydd yn yswirio ar gyfer gwerth o ddim llai na £500,000: (lle bo'r unigolyn yn meddu ar yswiriant oherwydd ei fod yn gyflogedig gan gwmni, mae'n rhaid rhoi tystysgrif y cwmni): ☐

5. Byddaf yn anfon fersiwn wedi'i ddiweddaru o'r Dystysgrif hon, neu Dystysgrif newydd, bob blwyddyn cyn pen deg diwrnod ar hugain wedi iddi gael ei diweddaru, neu fel arall bydd fy nghofrestriad yn darfod. Os bydd y warchodaeth yn cael ei dileu neu ei newid fel ei bod yn is na'r lefel sy'n ofynnol, byddaf yn hysbysu Llywodraeth Cymru cyn pen saith diwrnod gwaith.

6. Byddaf yn cydymffurfio â Thelerau ac Amodau Cofrestru Cynllunwyr Rheoli gan gynnwys yr holl Safonau Coedwigaeth a holl reolau Coetir Glastir, y cynllun a'r ddogfennaeth a amlinellir ynddynt.

7. Byddaf yn mynychu cyrsiau hyfforddi ar gyfer cynlluniau coetir Glastir yn ôl y gofyn. ☐

Llofnod______________________________________________________

Enw'r sawl a lofnododd (llythrennau bras) ______________________________

Dyddiad ________________________

Dylid dychwelyd y ffurflen hon a'r holl dystiolaeth ddogfennol ar e-bost at glastirtargetedelementqueries@gov.wales neu drwy'r post at Llywodraeth Cymru, Taliadau Gwledig Cymru, Adeiladau'r Llywodraeth, Penrallt, Caernarfon, Gwynedd LL55 1EP

Cofiwch roi eich enw a'r geiriau Cais Cynllunydd Rheoli Coetir Glastir ar yr holl dystiolaeth ddogfennol.